Pecyn Ysgolion Cynradd

Cyfnod Allweddol 1-2 (gellir addasu Gweithgaredd 1 i'r Dosbarth Derbyn)

Rhagarweiniad

Diolch i chi am eich diddordeb mewn Diwrnod Rhuban Gwyn 2022. Gobeithio y bydd y pecyn addysg hwn yn eich helpu i nodi'r diwrnod yn eich ysgol.

Cynhelir Diwrnod Rhuban Gwyn ar ddydd Rhuban Gwyn 2022 i roi diwedd ar drais yn erbyn merched. Mae'r 16 diwrnod sy'n dilyn y 25ain Tachwedd yn cael eu cydnabod yn fyd-eang fel 'diwrnodau gweithredu i roi diwedd ar drais'. Gallech ddewis un o'r diwrnodau i nodi Diwrnod Rhuban Gwyn neu nodi pob diwrnod gyda gweithgaredd neu drafodaeth bob dydd.

Rhuban Gwyn 2022 #YNod

Eleni, mae Diwrnod Rhuban Gwyn yn disgyn ar yr un wythnos â lansio Cwpan Byd y Dynion. Nid oes erioed amser gwell wedi bod i ni ganolbwyntio ar y daioni sy'n gallu dod o uno a chefnogi un achos cyffredin. Mae #YNod yn gwneud hyn gan ddod â dynion a bechgyn at ei gilydd i feddwl am sut i wneud gwahaniaeth i sicrhau diogelwch a chydraddoldeb i ferched a genethod.

Mae'r gweithgareddau yn y pecyn hwn yn helpu plant i ddathlu beth sy'n eu gwneud yn wahanol ac unigryw a deall pa mor bwysig yw derbyn a chynnwys eraill. Dyma sylfaen cymdeithas ddi-drais sy'n gyfartal i bob rhyw.

Cynnwys

1.Beth allwch ei wneud
2.Beth yw Rhuban Gwyn
3.Beth yw trais yn erbyn merched a genethod
4.Yr Addewid Rhuban Gwyn
5.Poster - #YNod
6.Nodiadau i athrawon
7.Gweithgaredd Un
8.Gweithgaredd Dau
9.Gweithgaredd Tri
10.Adnoddau pellach
11.Beth allwch ei wneud ar ôl Diwrnod Rhuban Gwyn

Beth yw White Ribbon UK?

Rhuban Gwyn yw'r brif elusen yn y DU sy'n gweithio gyda dynion a bechgyn i roi diwedd ar drais yn erbyn merched a genethod. Ein cenhadaeth yw atal trais yn erbyn merched a genethod drwy fynd i'r afael â gwraidd y broblem. Gwnawn hyn drwy godi ymwybyddiaeth o beth yw trais a'r cysylltiad rhwng normau gwrywaidd gormesol, anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, a thrais yn erbyn merched. Drwy ein gwaith, ceisiwn newid agweddau cymdeithas a'r systemau ac ymddygiad o gwmpas bod yn ddyn sy'n parhau anghydraddoldeb rhwng y rhywiau a thrwy hynny drais dynion yn erbyn merched. Mae gwaith White Ribbon UK yn ataliol a cheisiwn roi diwedd ar drais cyn iddo ddechrau.

Beth yw trais yn erbyn merched a genethod?

Yn Rhuban Gwyn defnyddiwn y diffiniad United Nations:
Mae trais yn erbyn merched yn golygu "unrhyw weithred o drais ar sail rhywedd sydd, neu sy'n debygol o arwain at niwed neu ddioddefaint corfforol, rhywiol neu seicolegol i ferched, gan gynnwys bygwth gweithred o'r fath, gorfodaeth neu amddifadu rhywun yn fympwyol o'u rhyddid, p'un ai'n gyhoeddus neu mewn bywyd preifat". United Nations (1994) A/RES/48/10

Mae un o bob tair merch drwy'r byd yn profi trais, fel arfer gan rywun y maen nhw'n ei adnabod. Mae trais dynion tuag at ferched a genethod mewn mannau cyhoeddus, yn y gweithle a thrwy berthynas agos yn achosi niwed corfforol, emosiynol a seicolegol dychrynllyd. Mae'n effeithio ar addysg, cyflogaeth, iechyd a marwoldeb merched ac ar eu hannibyniaeth economaidd, cyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus a'u perthnasoedd. Yn ôl adolygiad OFSTED o gam-drin rhywiol mewn ysgolion a cholegau yn 2021, mae harasio a cham-drin plant a phobl ifanc yn rhywiol ar-lein yn broblem gyffredin ac mor eang fel bod angen rhoi sylw i'r mater ar gyfer pawb. Mae ymddygiad rhywiol niweidiol fel hyn yn digwydd mor aml fel bod rhai plant a phobl ifanc yn meddwl ei fod yn normal.

[1]https://www.gov.uk/government/publications/review-of-sexual-abuse-in-schools-and-colleges/review-of-sexual-abuse-in-schools-and-colleges

Yr Addewid Rhuban Gwyn

Mae annog pawb, yn enwedig dynion, i wneud yr Addewid Rhuban Gwyn i beidio byth â defnyddio, esgusodi nac aros yn dawel am drais dynion yn erbyn merched, a gwisgo Rhuban Gwyn, yn ganolog i'r ymgyrch. Gobeithio na fydd eich tîm staff yn petruso i wneud yr Addewid hwn (gellir gwneud hyn ar-lein yn www.whiteribbon.org.uk/promise) – neu ddilyn y cod QR nes ymlaen yn y pecyn. Mae gwneud yr Addewid yn arwyddocaol ac ni fyddem yn disgwyl i blant dan 14 oed wneud yr Addewid. Yn hytrach, gallwch siarad gyda phlant am yr egwyddorion sy'n gysylltiedig â'r symbol Rhuban Gwyn, e.e. peidio â brifo eraill, tynnu sylw at stereoteipio ar sail rhyw a sefyll i fyny dros a chefnogi eraill.

Beth allwch ei wneud

Mae dathlu Diwrnod Rhuban Gwyn yn eich ysgol yn fwy gwerthfawr drwy ddilyn dull ysgol-gyfan. Dyma rai syniadau am beth i'w wneud y tu allan i'r dosbarth:

- Annog pawb, yn enwedig staff, i wisgo Rhuban Gwyn.
- Argraffu rhai o'n posteri i'w rhoi ar y wal, archebu o'n siop, neu annog myfyrwyr i ddylunio rhai eu hunain. Mae mwy o wybodaeth am Rhuban Gwyn ar ein gwefan.
- Gallech wneud arddangosfa bobl o Ruban Gwyn mawr ar gae pêl-droed neu ddarn mawr arall o dir a thynnu llun / ffilmio o'r awyr. Gallech gynnal cystadleuaeth yn yr ysgol i weld pa ddosbarth sy'n creu'r rhuban pobl mwyaf creadigol!
- Anogwch blant i rannu eu hymdrechion ar gyfer Diwrnod Rhuban Gwyn â'r teulu.
- Cynnal gwasanaeth Diwrnod Rhuban Gwyn a 16 Diwrnod o Weithredu.
- Ychwanegu fframiau a baneri Diwrnod Rhuban Gwyn #YNod at gyfryngau cymdeithasol eich ysgol.
- Edrych ar rai o'r deunyddiau Diwrnod Rhuban Gwyn #YNod sydd ar gael a'u rhannu ar eich cyfryngau cymdeithasol.
- Gallwch brynu Rhubanau Gwyn a deunyddiau codi ymwybyddiaeth yn y Siop Rhuban Gwyn www.whiteribbon.org.uk/shop

https://www.gov.uk/government/publications/review-of-sexual-abuse-in-schools-and-colleges/review-of-sexual-abuse-in-schools-and-college

Nodiadau i athrawon

Creu lle diogel: Er mai derbyn a chydraddoldeb yw ffocws y gweithgareddau hyn, mae'n werth ystyried sut y gallai eich myfyrwyr ymateb i'r cynnwys. Efallai na fydd rhai'n teimlo'n gyffyrddus yn meddwl am rolau'r rhywiau. Efallai eu bod wedi profi trais neu'n rhywun sydd wedi ymddwyn yn dreisgar. Meddyliwch am y plant yn eich dosbarth gan roi'r ffiniau iawn yn eu lle i gadw pawb yn ddiogel, er enghraifft drwy gadarnhau rheolau'r dosbarth, dweud wrth rai plant beth fydd yn cael ei ddysgu cyn y dosbarth fel eu bod yn gallu prosesu'r peth, a dweud yn glir nad oes raid cymryd rhan os nad ydynt yn teimlo'n gyffyrddus. Yn ystod y wers, gallech ddangos manylion cyswllt sefydliadau sy'n cynnig cymorth a chefnogaeth:

a.(Ffôn 0800 1111)

b.(Llinell gymorth 24 awr am ddim: 0808 2000 247)

Helpu plant i ddeall beth yw rhywiau a rolau'r rhywiau: Yn ifanc iawn, mae gan blant syniad clir o rolau'r rhywiau sy'n cynnwys beth y maen nhw'n ei hoffi, yn credu eu bod yn dda yn ei wneud, eu hymddygiad a phersonoliaeth, a'u dewisiadau. Mae plant yna'n cydymffurfio â rolau'r rhywiau ac uniaethu â nhw. Mae popeth y daw plant ar ei draws yn cadarnhau eu dealltwriaeth o rolau'r rhywiau (teulu, cyfryngau, llyfrau, dillad, ayyb). Yn ôl astudiaethau, mae oedolion yn siarad ac ymddwyn yn wahanol gan ddibynnu ar rywedd babi, fel bod yn fwy tebygol o ddarllen gyda merched, ac o annog bechgyn i gropian.

- Gallwn helpu plant i ddeall mai agwedd 'wneud' yw rolau'r rhywiau a'n bod i gyd yn unigryw:
- Dylid bob amser annog plant i roi cynnig ar bethau newydd sy'n herio stereoteipiau a normau rhywedd.
- Meddyliwch am eich rhagfarn rhyweddol eich hun a sut yr addysgwn ein plant, gan amlaf heb hyd yn oed sylweddoli!
- Ceisiwch addysgu iaith sy'n niwtral o ran rhywedd a chefnogi plant i ddeall pam fod jôcs a thermau ar sail rhywedd yn anaddas.
- Cyflwynwch wahanol fathau o hunaniaeth gan annog bechgyn i feithrin agweddau a ystyriwyd yn draddodiadol i fod yn rhai benywaidd, fel bod yn ofalgar, cefnogol, caredig a meddylgar. Ac anogwch enethod i feithrin y nodweddion sydd wedi bod yn gysylltiedig â dynion, fel bod yn gryf, rhesymegol, egnïol ac yn arweinydd.

Defnyddiwch y Rhuban Gwyn: Mae'r Rhuban Gwyn yn symbol o bawb yn gallu byw'n ddiogel a rhydd o niwed ac yn helpu plant i ddeall cydraddoldeb rhwng y rhywiau hyd yn oed os nad oes ganddynt yr iaith iawn i siarad am y peth eto

GWEITHGAREDD 1

Adnoddau sydd eu hangen

- 2 focs – un glas (bechgyn) ac un pinc (genethod) lle bo'n bosib. Neu rywbeth arall i ddangos rhywedd.
- Llenwch y bocs glas / bechgyn ag eitemau sy'n gysylltiedig â genethod fel arfer - dillad tylwyth teg / tywysoges, adenydd lliwgar, colur, gemwaith, dolis, ayyb. Cofiwch sicrhau bod yr eitemau'n briodol i oed ac yn adlewyrchu diddordebau'r genethod yn eich dosbarth.
- Llenwch y bocs pinc / genethod ag eitemau sy'n gysylltiedig â bechgyn fel arfer – gwisgoedd plismon, diffoddwr tân, adeiladwr ayyb, pêl-droed, cleddyfau, deunyddiau adeiladu ayyb. Dylent fod yn briodol i'w hoed ac adlewyrchu diddordebau'r bechgyn yn eich dosbarth.
- Stribedi mawr o bapur a phinnau ysgrifennu glas a phinc/piws.

Cyfarwyddiadau

- Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp, bechgyn a genethod. Gofynnwch iddynt egluro sut y gwnaethoch eu rhannu.
- Gofynnwch i grŵp ddewis bocs, gan gymryd y bydd genethod yn dewis pinc a bechgyn yn dewis glas. Gallech roi'r bocsys i'r grwpiau os credwch fod siawns y bydd y grwpiau'n dewis y bocs arall.
- Un grŵp ar y tro, agorwch y bocs a thynnu'r eitemau allan. Gofynnwch i bob grŵp ysgrifennu (genethod gyda'r pinnau glas a bechgyn gyda'r rhai pinc / piws) ar y stribedi papur unrhyw eiriau sy'n gysylltiedig â'r eitemau yn eu bocs, e.e. pethau genod, tlws, gliteri, cryf, pethau hogia, caled.
- Dywedwch wrth y plant fod ganddynt 10 munud i chwarae gyda'r eitemau yn eu bocs. Wrth iddynt chwarae, sylwch sut y mae'r genethod yn ymddwyn gyda'r eitemau 'bechgyn' traddodiadol a'r bechgyn gyda'r eitemau 'genethod'.

Cwestiynau

Dewch â'r dosbarth at ei gilydd mewn cylch gyda'r eitemau y buon nhw'n chwarae â nhw gan roi'r geiriau a ddisgrifiwyd ganddynt yn y canol.

- Sut oeddech chi'n teimlo'n chwarae â'r eitem?
- Oeddech chi'n ymddwyn yn wahanol i'r arfer? Pam felly yn eich barn chi?
- Ydych chi weithiau'n dewis chwarae â'r pethau hyn, pam mai rhai 'genethod' neu 'fechgyn' ydyn nhw? Ydy hynny'n deg yn eich barn chi?
- Helpwch y dosbarth i feddwl pam eu bod yn ymddwyn yn wahanol fel bachgen a geneth – oedd o'n braf teimlo'n wahanol? Beth pe gallech ymddwyn fel hyn weithiau – a fyddai hynny'n beth da?
- Eglurwch y gall bechgyn a merched chwarae â phob un o'r eitemau hyn, nid pethau i enethod neu fechgyn yn unig ydyn nhw.
- Mae pawb yn arbennig oherwydd ein bod yn hoffi pethau gwahanol, dyna sy'n ein gwneud yn unigryw!

Trafod

1.Gofynnwch i'r dosbarth feddwl am enghreifftiau pryd na wnaeth genethod a bechgyn ymddwyn ar sail eu rhywedd. Er enghraifft, y Llewesau'n ennill cystadleuaeth Euro's y Merched 2022, Harry Styles yn gwisgo ffrogiau a phlu gyda balchder – sy'n ddillad merched i lawer.

2.Gan osod y geiriau o ddechrau'r gweithgaredd yng nghanol y cylch, gofynnwch i'r genethod ddewis unrhyw eiriau bechgyn arferol y maen nhw'n eu cysylltu â nhw eu hunain, e.e. cryf, cyflym, pwerus, glas – a'r un peth i'r bechgyn gyda'r geiriau genethod, e.e. disglair, gliteri.

3.Gofynnwch iddynt sefyll a fesul un rhwygo eu gair a dweud 'gall genethod / bechgyn fod yn' - yna'r gair a ddewiswyd ganddynt.

Addasu ar gyfer y Dosbarth Derbyn

Dilynwch gyfarwyddiadau'r gweithgaredd ond heb y dasg o ysgrifennu geiriau. Gofynnwch gwestiynau:

- Ydych chi'n hoffi eich gwisg? Pam?
- Ydych chi'n meddwl y gall bechgyn a genethod wisgo'r un dillad a chwarae'r un gemau? Pam?
- Sut oeddech chi'n teimlo pan oeddech chi'n chwarae yn eich gwisg?
- Anogwch y plant i ddeall eu bod i gyd yn gallu chwarae gyda'r un teganau a chwarae unrhyw rôl y maen nhw eisiau. Gall pawb fod yn gryf a gall pawb fod yn addfwyn!

Rydym i gyd yn arbennig ac unigryw a dylem ddathlu ein gilydd am hoffi pethau gwahanol.

GWEITHGAREDD 2

Adnoddau sydd eu hangen

- Marciwch gôl ar wal y dosbarth neu ddefnyddio gôl go iawn y tu allan. Gallech hefyd rannu'r plant yn grwpiau llai a chael gôl ar bob bwrdd.
- Marciwch y smotyn cicio wrth ymyl y gôl.
- Dwy bêl-droed neu gallwch dorri peli o'r templed yn y pecyn.
- Cardiau geiriau stereoteipiau rhywedd.

Cyfarwyddiadau

1.Naill ai fel dosbarth cyfan neu mewn grwpiau llai, gosodwch y ddwy bêl-droed yr un pellter i ffwrdd o'r gôl, digon i'w symud o leiaf wyth cam ymlaen. Nodwch ba bêl-droed sy'n cynrychioli genethod a pha un sy'n cynrychioli bechgyn drwy farcio G a B arnynt.
2.Yn eu tro, dywedwch, neu gofynnwch i'r grwpiau ddarllen, y geiriau stereoteipiau rhywedd (isod) – ac annog trafod yr atebion – os yw'r plant yn meddwl mai gair genethod a bechgyn ydyw, symudwch y ddwy bêl ymlaen – os oes gan fechgyn y fantais, symudwch bêl y bechgyn yn unig ymlaen, os oes gan enethod y fantais, symudwch bêl y genethod yn unig ymlaen.
3.Pan fydd y bêl gyntaf yn cyrraedd y smotyn, gofynnwch i rywun gymryd y gic o'r smotyn.

Cwestiynau

- Pam feddyliwch ein bod yn cysylltu'r geiriau gyda bechgyn neu enethod? Ydy hynny'n deg yn eich barn chi? Sut y mae'n gwneud i chi deimlo?
- O ble y meddyliwch y daeth y syniadau hyn o bethau i fechgyn a phethau i enethod?
- Ydy o'n wir mai pethau i fechgyn neu enethod yn unig ydy'r rhain?
- Oes yna rywbeth a fwynhewch ond cawsoch wybod na ddylech ei wneud oherwydd eich bod yn fachgen neu'n eneth? Oes yna rywbeth nad ydych wedi'i wneud oherwydd eich bod yn fachgen neu'n eneth?
- Beth allwn ei wneud yn yr ysgol i helpu pawb i fod a gwneud unrhyw beth, hyd yn oed os credir eu bod yn bethau bechgyn neu'n bethau genethod?

Trafod

1.Gofynnwch i'r dosbarth ddewis rhywbeth y maen nhw'n ei fwynhau a welir fel rhywbeth i'r rhyw arall fel arfer. Gallai fod yn lliw, dilledyn, gêm, chwaraeon, ac yn y blaen.
2.Gan sefyll wrth y smotyn, gofynnwch i'r myfyrwyr fesul un ddweud y peth y maen nhw'n ei hoffi a chicio'r bêl i gefn y rhwyd gan weiddi – 'GÔL!'

Cardiau geiriau stereoteipiau rhywedd

Ceir	Addfwyn	Glanhau	Dawnsio
Bocsio	Glas	Pinc	Mathemateg
Gwyrdd	Meddyg	Nyrs	Athro / Athrawes
Rygbi	Darllen	Adeiladu	Cryf

GWEITHGAREDD 3

Adnoddau sydd eu hangen

.Gôl wedi'i marcio ar y wal (neu ar y llawr)
.Nodiadau post-it neu bapur cerdyn, pinnau ysgrifennu
.Cardiau nodweddion positif a negyddol i sgaffaldio syniadau

Cyfarwyddiadau

1.Meddyliwch am gymaint o bethau sy'n gysylltiedig â bod yn fachgen â phosib. Ysgrifennwch un gair ar bob post-it a'i ludo ar gefn y gôl.

Cwestiynau

- Sut y teimlwn am y geiriau hyn? Ydyn nhw'n dda / drwg / niwtral - a allai rhai fod yn dda a drwg? A allai genethod fod yn unrhyw un o'r geiriau hyn?
- Gofynnwch i'r bechgyn: Ydych chi'n teimlo weithiau bod yn rhaid i chi fod yn rhai geiriau neu ymddwyn mewn rhai ffyrdd oherwydd disgwyliadau pobl? Sut y mae'n gwneud i chi deimlo?
- Gofynnwch i'r genethod: Ydych chi weithiau'n teimlo'n anghyffyrddus, wedi eich gadael allan neu'n drist oherwydd bod bechgyn yn ymddwyn mewn rhai ffyrdd? Ydych chi'n teimlo weithiau na allwch fod yn unrhyw un o'r geiriau hyn?
- Anogwch bawb i feddwl am ymddygiad da / positif i enethod a bechgyn, fel caredig, parod i helpu, cefnogol, cyfeillgar, hapus, doniol, addfwyn. Ysgrifennwch nhw ar nodiadau post-it.
- Symudwch y geiriau ymddygiad da / positif i'r gôl a thynnu'r rhai drwg / negyddol allan. Sefwch yn ôl – beth fyddai'n wahanol pe bai pawb yn bob un o'r geiriau yn y gôl, ac yn gwrthod y rhai sydd y tu allan i'r gôl?
- Rhannwch y poster Rhuban Gwyn gyda'r 11 nodwedd bersonol. A oes rhai yr un fath â'r geiriau yn y gôl? A allai Rhuban Gwyn fod wedi dewis geiriau oedd yn bwysicach?

Trafod

Gofynnwch i'r dosbarth ddylunio poster newydd i ddathlu'r holl fathau o ymddygiad sy'n bwysig i'w dosbarth.

Gofalgar	Addfwyn	Myfyriol	Dewr	Caredig
Dibynadwy	Gobeithiol	Cefnogol	Cyfeillgar	Doniol
Cryf	Arweinydd	Annibynnol	Gwarchodol	Hoff o chwaraeon
Rheolgar	Ymosodol	Caled	Dideimlad	Hoff o gymryd risg

Gwyrdd = positif; Melyn = gallu bod yn bositif a negyddol; Coch = negyddol

Gwybodaeth am adnoddau pellach

·Roedd White Ribbon UK yn rhan o'r Europe Wide Emancipator Programme ac mae syniadau pellach ar gyfer gweithgareddau ar y themâu hyn ar gael mewn pecyn sydd ar gael yma https://www.emancipator.nl/wp-content/uploads/2018/06/IMAGINE-Toolkit-EN.pdf.

.Promundo's 'The Man Box': https://promundoglobal.org/wp-content/uploads/2017/03/TheManBox-Full-EN-Final-29.03.2017-POSTPRINT.v3-web.pdf

.Gender Action rhaglen wobrwyo i wreiddio cydraddoldeb rhwng y rhywiau fel dull ysgol-gyfan: https://www.genderaction.co.uk

.AGENDA, Cymru: https://agenda.wales/agenda_0319/agenda_english.pdf

.Fawcett Society #chwalustereoteipiau: https://www.fawcettsociety.org.uk/smashstereotypes

.Let Toys be Toys poster (i rieni): http://lettoysbetoys.org.uk/wp-content/uploads/2018/09/LTBT-DrMacKay-poster-A3.pdfa National Literacy Trust: https://cdn.literacytrust.org.uk/media/documents/LTBT_posterV5_Dream_Big_Gender.pdf

.Spark fideo ar anghydraddoldeb rhwng y rhywiau i fechgyn a dynion: https://vimeo.com/groups/594278/videos/343266625

Nid rhywbeth ar gyfer Diwrnod Rhuban Gwyn yn unig yw atal trais yn erbyn merched

Anogwn chi i wreiddio egwyddorion Diwrnod Rhuban Gwyn drwy gydol y flwyddyn. Dyma syniadau ar gyfer sut i barhau i greu diwylliant o gydraddoldeb rhwng y rhywiau a pharch at bawb yn eich ysgol:

- Anogwch y staff, a'r gymuned ysgol ehangach, i ddod yn Llysgenhadon a Phencampwyr Rhuban Gwyn a chael mynediad at ein hadnoddau ar gyfer ysgolion.

- Cynnwys gwersi stereoteipio ar sail rhywedd Rhuban Gwyn yn y cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (drwy borth adnoddau Llysgenhadon a Phencampwyr Rhuban Gwyn).

- Gallai eich ysgol fod â diddordeb mewn dod yn Gefnogwr Rhuban Gwyn neu'n Rhuban Gwyn Achrededig.

- Ystyriwch y dull ysgol-gyfan o wreiddio cydraddoldeb rhwng y rhywiau ac atal rhagfarn rhywiol, stereoteipio a harasio rhywiol. Mae nifer o becynnau adnoddau gwych ar gael i'ch helpu i weithredu hyn, fel y strategaeth Equaliteach 'Outside the Box' ar gyfer trawsnewid amgylchedd yr ysgol gyfan i fod yn fwy cydradd rhwng y rhywiau.

- Prynwch ddeunyddiau codi ymwybyddiaeth Rhuban Gwyn i'w harddangos o gwmpas yr ysgol.

- Cofiwch sicrhau bod gan y plant wybodaeth am ble i fynd am gymorth.

- Prynwch ddeunyddiau codi ymwybyddiaeth a gwneud cyfraniadau.

Prynwch ddeunyddiau codi ymwybyddiaeth a gwneud cyfraniadau.

Gallwch brynu deunyddiau codi ymwybyddiaeth Rhuban Gwyn, a rhai eraill, drwy siop ar-lein White Ribbon UK ar ein gwefan. Os ydych wedi codi arian eich hun, gallwch ei dalu mewn drwy'r botwm cyfrannu ar ein gwefan yn www.whiteribbon.org.uK. Os am dalu drwy drosglwyddiad banc, e-bostiwch Jayne.Blacker@whiteribbon.org.ukam fanylion ein cyfrif. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i 'WHITE RIBBON CAMPAIGN LTD' a'u hanfon at White Ribbon UK, The Town Hall, St Georges Street, Hebden Bridge, HX7 7BY.

Nodyn ar gyfathrebu gyda rhieni

Rydym wedi ysgrifennu neges i chi ei rhannu â rhieni'n rhoi gwybod iddynt am Ddiwrnod Rhuban Gwyn, gan gynnwys beth y mae'n ei olygu a beth fydd eu plant yn ei wneud. Gallwch gopïo'r testun isod neu ei addasu. 'Ar 25ain Tachwedd byddwn yn nodi Diwrnod Rhuban Gwyn yn yr ysgol. Bwriadwn wneud gweithgareddau er geisio creu cydraddoldeb rhwng y rhywiau a herio stereoteipiau rhyw.

Oherwydd bod hyn ystod Cwpan Byd y Dynion, bydd y ffocws ar bêl-droed i weld sut y gall chwaraeon annog nodweddion positif mewn dynion a bechgyn. Mae Rhuban Gwyn yn fudiad byd-eang sy'n gweithio gyda dynion a bechgyn i roi diwedd ar drais yn erbyn merched. Mae mwy o wybodaeth am White Ribbon UK yn www.whiteribbon.org.uk

White Ribbon UK yw enw gweithredol White Ribbon Campaign Ltd, elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (Rhif 1123874) a chwmni cyfyngedig drwy warant (Rhif 05617302).